**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1338
Ein cyf/Our ref LW/01426/23

Jack Sargeant MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

24 Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich gohebiaeth ar 14 Gorffennaf oddi wrth y Pwyllgor ynghylch cyllido bysiau a "Deiseb P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau".

Cyhoeddais ddatganiad ar 16 Mehefin gyda phartneriaid o'r diwydiant bysiau ac awdurdodau lleol yn nodi manylion ein cymorth ariannol i'r diwydiant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Cyhoeddais hefyd ddydd Mawrth, 23 Mai, bod Llywodraeth Cymru'n neilltuo £46m o'r cyllidebau bysiau i gefnogi BES a'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau (BTF) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Bydd yr arian yn cadw gwasanaethau strategol TrawsCymru i fynd hefyd.

Mae'r BTF, a ddechreuodd ar 25 Gorffennaf 2023 ac a ddatblygwyd ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r diwydiant wedi cymryd lle'r Cynllun Argyfwng Bysiau a ddaeth i ben ar 24 Gorffennaf. Bydd yn darparu cymorth ariannol ar unwaith i weithredwyr bysiau yng Nghymru fel y gall y gwasanaethau hanfodol hynny barhau. Bydd hefyd yn rhoi amser i awdurdodau lleol gynnal asesiad ystyrlon o wasanaethau bysiau presennol Cymru drwy dimau cynllunio rhanbarthol dan arweiniad TrC, gan edrych yn benodol ar ddarparu gwasanaethau bysiau yn y dyfodol ar sail y tueddiadau teithio newydd ddaeth i'r amlwg yn dilyn y pandemig, hynny o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Timau Cynllunio Rhwydweithiau Rhanbarthol wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd. Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod hefyd â Chymdeithas y Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth a CLILC.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y cyllid sydd wedi'i neilltuo yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau presennol yng Nghymru'n cael eu diogelu ac rydym wedi gofyn i'r Timau Cynllunio Rhanbarthol a TrC baratoi trosolwg o newidiadau i wasanaethau. Gallai rhai gwasanaethau newid i adlewyrchu patrymau teithio gwahanol ers y pandemig.

Rydym hefyd wedi bod yn trafod gyda TrC, partneriaid yn y diwydiant a'r undebau llafur sut y gallwn lunio ymgyrch i gael pobl yn ôl ar y bysiau. I ddechrau'r gwaith hwnnw, rydym wedi bod yn edrych ar astudiaethau o'r farchnad i benderfynu ble y gallai ymgyrch gael yr effaith fwyaf ac annog cymaint o bobl â phosibl i ddefnyddio bysiau.

Nod ymgyrch o'r fath fydd annog cyn-ddefnyddwyr yn ôl ar y bysiau yn ogystal ag annog cwsmeriaid newydd. TrC fydd yn arwain y gwaith hwn a chaiff ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni.

Fy uchelgais yw dod â sefydlogrwydd i'r diwydiant bysiau yn dilyn y pandemig wrth i gostau gweithredol gynyddu yr un pryd ag y mae lefel y nawdd, gwaetha'r modd, yn gostwng. Mae'r gwaith rydym wedi'i wneud a'r cysylltiadau yr ydym wedi'u meithrin wrth ymateb i'r her hon wedi ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i baratoi ar gyfer masnachfreinio, ac mae'r heriau y mae'r gwaith wedi tynnu ein sylw atynt wedi cryfhau'r achos o blaid diwygio. Y cymorth hwn yw'r cam nesaf ar y llwybr o gyllid argyfwng tuag at bontio trefnus at fasnachfreinio yn y dyfodol. Bydd hynny'n gosod y seiliau i ni adeiladu system fysiau sy'n seiliedig ar anghenion pobl, nid ar anghenion y farchnad. Fodd bynnag, er mwyn i'r system fod yn gynaliadwy, bydd angen cael mwy o bobl i ddefnyddio'n bysiau, a byddwn yn gweithio i annog pobl i wneud hynny.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change